**SWYDDOGOL**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Perfformiad Strategol** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys SCC119** |
| **Dyddiad:** | **27 Ionawr 2026** |
| **Amser:** | **9:30am–12:30pm** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn<br>Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro, Gary Phillips<br>Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Andrew Edwards<br>Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Carys Morgans<br>Pennaeth Strategaeth a Pholisi Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Claire Bryant<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Nicola Davies (Ar-lein) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Swyddog Arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, Katie Hancock (Ar-lein)<br>Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, Yr Uwch-arolygydd Dros Dro, Mark McSweeney<br>Uwch-reolwr Perfformiad a Dadansoddeg, Lowrie Proctor<br>Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau yr Heddlu, Tanya Davies (Ar-lein)<br>Swyddog Staff, Yr Arolygydd Lewis Simpson<br>Swyddog Staff, Yr Arolygydd Sam Gregory<br>Swyddog Cymorth Gweithredol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Sophie Morgan<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, Y Cynghorydd Jonathan Grimes<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, Helen Thomas |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries<br>Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams<br>Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Alison Perry |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu a oedd yn bresennol fel arsylwyr.

Cyflwynodd Katie Hancock, Swyddog Arolygu o Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ei hun a'i rôl i'r rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

## 2. Y diweddaraf am gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu | Crynodeb | Y diweddaraf |
|---|---|---|
| SPB 025 | Cyfraddau ymateb i'w hadolygu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Perfformiad Strategol yn dilyn atgyweiriad y system STORM a chofnodi awtomatig pan fydd swyddogion yn cyrraedd lleoliad. | **Ar y gweill**<br>I'w drafod yn y cyfarfod |
| SPB 026 | Canolbwyntio ar amseroedd ymateb Llanbedr Pont Steffan a Sir Faesyfed yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Perfformiad Strategol ym mis Ionawr 2026. | **Ar y gweill**<br>I'w drafod yn y cyfarfod |
| SPB 027 | Y gwerthusiad o'r treial gliniaduron i'w drafod mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Mai 2026. | **Gollyngwyd**<br><br>Ychwanegwyd at flaengynllun gwaith y Bwrdd Plismona |
| SPB 028 | SE i ganfod manylion unrhyw adolygiad cenedlaethol o Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol ac adrodd yn ôl i'r Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh). | **Cyflawnwyd** |
| SPB 029 | Gwerthusiad o E-BIT i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd Plismona i'w drafod. | **Gollyngwyd**<br><br>Ychwanegwyd at flaengynllun gwaith y Bwrdd Plismona |
| SPB 030 | Yr heddlu i geisio deall yr achosion pam fod aml-droseddu a dioddef aml-droseddau yn lleihau dros amser, a rhannu'r rhesymau â'r Comisiynydd. | **Cyflawnwyd** |

| | | |
|---|---|---|
| SPB 031 | Y data heddlu mwyaf tebyg i'w darparu ochr yn ochr â data Cymru er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd / cymariaethau Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn adroddiadau'r Bwrdd Perfformiad Strategol yn y dyfodol. | **Cyflawnwyd** |
| SPB 032 | Yr heddlu i geisio deall y newid mewn troseddau symudol, o'u cymharu â throseddau disymud, yn nata GanBwyll, ac adrodd yn ôl i SCHTh. | **Cyflawnwyd** |
| SPB 033 | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datganiad sefyllfa diweddaraf Heddlu Dyfed-Powys ynghylch cyllid GanBwyll. | **Cyflawnwyd**<br>Yr wybodaeth ddiweddaraf wedi ei darparu i'r CHTh |
| SPB 034 | SCHTh i fonitro'r ffigurau ynghylch troseddau yn ymwneud â chymryd heb gydsyniad y perchennog a dwyn cerbydau. | **Ar y gweill** |

## 3. Perfformiad yr heddlu

### a) Adroddiad ar berfformiad yr heddlu

Dywedodd y Comisiynydd mai dim ond un adroddiad o berfformiad yr heddlu a fyddai'n cael ei greu o hyn ymlaen, a byddai hon yn ddogfen a fyddai ar gael i'r cyhoedd.

Tynnodd y Comisiynydd sylw at y gwelliant sylweddol ym mherfformiad Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a'r newidiadau a oedd wedi digwydd o fewn yr adran yn dilyn buddsoddiad yn y ganolfan, a ddarparwyd gan y Comisiynydd. Roedd y Comisiynydd wedi nodi'r gwelliant yn yr amser aros ar gyfartaledd yn ystod galwad – o 7.96 eiliad ym mis Tachwedd 2024 i 4.83 eiliad ym mis Rhagfyr 2025.

Roedd y Comisiynydd hefyd wedi nodi perfformiad yr heddlu o'i gymharu â heddluoedd eraill. Yn ystod trydydd chwarter 2025–2026, roedd Heddlu Dyfed-Powys yn y nawfed safle o ran cyfran y galwadau a atebwyd o fewn y dangosydd perfformiad allweddol o 10 eiliad (95.2% o alwadau), ac yn y seithfed safle o ran cyflymder ateb ar gyfartaledd (4.77 eiliad).

Holodd y Prif Weithredwr a oedd unrhyw wahaniaeth mewn perfformiad o ran galwadau Cymraeg. Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol nad oedd y perfformiad o ran y Gymraeg yn debyg i'r perfformiad a oedd yn cael ei ddangos yn yr adroddiad, a bod hwn yn faes yr oedd yr heddlu'n edrych arno.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i rannu data / ffigurau trin galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu o ran y Gymraeg â SCHTh.**

Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn ymwybodol o'r ymgyrch recriwtio ddiweddar am siaradwyr Cymraeg ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, ac awgrymodd y dylid trefnu cydymffurfio â'r Gymraeg fel pwnc yn y dyfodol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona.

**Cam gweithredu: SCHTh i drefnu cydymffurfio â'r Gymraeg fel pwnc i ganolbwyntio arno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona.**

Gofynnodd y Comisiynydd i'r Prif Gwnstabl am yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r adroddiad ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd y byddai'r heddlu yn ei gyhoeddi cyn bo hir. Dywedodd y Prif Gwnstabl mai'r bwriad o ran creu adroddiad blynyddol ar lefel yr heddlu oedd rhoi gwybodaeth allweddol i'r heddlu, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol o fewn trefniadau craffu a oedd yn bodoli eisoes, gan roi sicrwydd am ddull yr heddlu o ddarparu gwasanaethau. Nodwyd bod adroddiad wedi ei ddrafftio a oedd yn tynnu sylw at weithgareddau a datblygiadau allweddol yn ystod 2025 mewn perthynas â lleihau costau, gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a gwella gwerth am arian.

Soniodd y Comisiynydd fod cyswllt digidol â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi cynyddu, a gofynnodd am effaith hyn yn yr ystafell reoli o ran annog mwy o gyswllt digidol.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, yn dilyn buddsoddiad y Comisiynydd yn y praesept yn y ganolfan, fod holl staff y ganolfan wedi eu hyfforddi i fod yn gymwys ym mhob agwedd, a bod y model hwn yn caniatáu i'r ganolfan addasu ei adnoddau pan fo angen.

Holodd y Comisiynydd ynghylch y lefel bresennol o salwch, a cheisiodd sicrwydd mewn perthynas â llesiant staff y ganolfan. Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol fod diwylliant y ganolfan yn un a oedd yn cael ei reoli'n llym o ran ei pherfformiad, yn enwedig dros y 12–18 mis diwethaf, a bod staff wedi bod yn bryderus i raddau ynghylch hollgymhwysedd. Fodd bynnag, bu buddsoddiad sylweddol mewn cymorth hyfforddi a chyfarfod perfformiad misol pwrpasol o fewn y ganolfan. O safbwynt y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, nodwyd ei bod yn debyg bod diwylliant y ganolfan gyda'r gorau yr oedd wedi bod ers amser maith. Nodwyd bod amrywiadau o ran cyfraddau salwch, ond absenoldebau salwch tymor byr oedd yr rhain, ac nid oeddent yn arwain at broblemau o ran absenoldebau salwch hirdymor.

Dywedodd y Prif Gwnstabl nad oedd yr Arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl wedi codi unrhyw bryderon am sefyllfa'r ganolfan.

Gofynnodd y Comisiynydd am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y newid mewn patrymau shifftiau yn y ganolfan. Soniodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol fod rhywfaint o oedi wedi digwydd yn hyn o beth.

**Cam gweithredu: Yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i shifftiau nos Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w darparu i'r CHTh maes o law.**

Bu'r bwrdd yn trafod troseddau siop-ladrad yn ardal yr heddlu. Rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ddiweddariad am y cynllun lleihau siop-ladrad a oedd ar waith yn yr heddlu.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad am y ffaith bod uwch-arolygydd yn arwain y broses o gyfarfod â rhai manwerthwyr cenedlaethol i drafod sut y gellid gwneud gwelliannau wrth gael fideo teledu cylch cyfyng gan fanwerthwyr yn fwy prydlon. Nodwyd bod angen gwaith parhaus o hyd ynghylch canlyniadau siop-ladrad. Gwelwyd gwelliant dros y 4–5 mis diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniad 1. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r grŵp o heddluoedd mwyaf tebyg, roedd y cyfraddau canlyniad 1 yn sylweddol uwch nag mewn heddluoedd eraill. Nodwyd bod rhywfaint o hyn yn gysylltiedig â gweithredu prydlon ac yn gysylltiedig â chael fideo teledu cylch cyfyng gan fanwerthwyr.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu ffigurau siop-ladrad i SCHTh, yn dilyn cynllun gwella ar gyfer mynd i'r afael â siop-ladrad.**

Darparodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol wybodaeth am y strategaeth ymgysylltu â siopwyr lleol a rhanbarthol, a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Uwch-arolygydd Atal gyda manwerthwyr.
Soniodd y Comisiynydd am y ffaith y dylid ymgysylltu â chymdeithasau siopwyr annibynnol.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ymgysylltu â chymdeithasau siopwyr annibynnol.**

Bu'r bwrdd yn trafod amseroedd ymateb i ddigwyddiadau a buddion y treial gliniaduron o ran amseroedd ymateb. Darparodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol wybodaeth bellach am allanolynnau a'r broses newydd o gofnodi digwyddiad newydd. Nodwyd bod y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn monitro ac yn adolygu amseroedd ymateb y tu allan i'r cytundeb lefel gwasanaeth.

Soniodd y Comisiynydd am y newidiadau gweithredol yng ngogledd a de Powys. Rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ddiweddariad am y ffaith bod gwerthusiad wedi ei gyflawni yn ddiweddar. Byddai uwch-arolygydd newydd ar gyfer yr uned reoli sylfaenol yn cael ei benodi ar gyfer Powys yn dilyn ymddeoliad comander presennol yr uned, a byddai cyfle i'r uwch-arolygydd newydd ystyried gwerthusiad y model ar y cyd â'r Prif Swyddogion.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i rannu gwerthusiad o'r newidiadau gweithredol ym Mhowys.**

Rhoddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad am y gwaith a oedd yn mynd rhagddo o ran esblygu'r broses. Roedd y Prif Gwnstabl yn gobeithio y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau gan uwch-arweinwyr, a'r gobaith oedd y byddai argymhellion yn cael eu gwneud erbyn diwedd mis Mawrth. Byddai hyn yn cael ei rannu â'r Comisiynydd.

**Cam gweithredu: Adroddiad ar esblygiad prosesau i'w rannu â'r Comisiynydd drwy'r Bwrdd Plismona ar ôl y Pasg.**

Bu'r bwrdd yn trafod y ffigurau uniondeb data troseddau, ac yn trafod y broses well o gofnodi troseddau, a goruchwylio gwell, drwy gyfarfodydd wythnosol gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Bu gwelliant enfawr hefyd yng nghydymffurfedd yr heddlu â'r safon genedlaethol o ran cofnodi troseddau (amseroldeb o ran cofnodi troseddau o fewn 24 awr). Rhoddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad am y gwelliannau a wnaed yn y Ganolfan Bregusrwydd a'r uned atgyfeirio ganolog. Roedd yn 67% yn flaenorol, ac yr oedd bellach yn uwch na 90%.

Bu'r bwrdd yn trafod y gwelliannau o ran ffigurau llais y plentyn, a'r newidiadau a roddwyd ar waith i wella'r ffigurau.

Holodd y Prif Gwnstabl am y ffigurau a ddarparwyd yn yr adroddiad o ran llais y plentyn, a gofynnodd a fyddai modd egluro'r ffigurau.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gadarnhau ffigurau data llais y plentyn.**

Bu'r bwrdd yn trafod cyfraddau canlyniad yr heddlu ar gyfer chwarter 3, ac yn eu cymharu â'r chwarter hwnnw yn y flwyddyn flaenorol. Soniodd y Comisiynydd am y ffaith bod datrysiad cymunedol canlyniad 8 wedi gostwng o 6.09% i 5.21%, a holodd ynglŷn â'r rheswm dros hyn.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth ynghylch y gostyngiad yn y datrysiad cymunedol o ran canlyniad 8.**

Holodd y Comisiynydd pa asiantaethau a oedd yn cael eu cynnwys o dan ganlyniad 20 yr oedd cyrff / asiantaethau eraill wedi ymchwilio iddynt. Rhoddodd Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau enghraifft fer o asiantaeth arall, a dywedodd y Prif Gwnstabl y gellid darparu rhestr lawn o asiantaethau i'r Comisiynydd.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth ynghylch pa asiantaethau a oedd yn cael eu cynnwys o dan ganlyniad 20.**

Gofynnodd y Comisiynydd i'r heddlu ble yr oedden nhw mewn perthynas ag erlyniadau ar sail tystiolaeth o ran canlyniad 15 a chanlyniad 16.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ddiweddariad am y ffaith bod pob digwyddiad domestig o fewn yr heddlu yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol gan adrannau, ac yna'n cael ei adolygu gan y Prif Swyddogion.

O ran troseddau yn ymwneud â meddu ar gyffuriau, cwestiynodd y Comisiynydd pam fod unigolion dan amheuaeth canlyniad 15, cymorth i ddioddefwyr, ond bod anawsterau tystiolaethol wedi cynyddu o 4.38% i 8.76%.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth am gynnydd canlyniad 15 ynghylch troseddau meddu ar gyffuriau.**

Bu'r bwrdd yn trafod gwasanaethau a gomisiynwyd a chanlyniad 22. Er bod cynnydd wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau i rai gwasanaethau, nid oedd wedi bod cymaint â'r disgwyl. Nodwyd bod atgyfeiriadau awtomataidd wedi gwella nifer yr atgyfeiriadau. Nodwyd hefyd bod problemau yn parhau gyda rhifau diogel yn cael eu darparu gan yr heddlu i wasanaethau a gomisiynwyd i gysylltu â phobl.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i roi sicrwydd ynghylch casglu data i'w rhannu â gwasanaethau a gomisiynwyd.**

**Cam gweithredu: SCHTh i fwydo ymholiadau atgyfeiriadau comisiynu i broses archwilio'r heddlu er mwyn sicrhau bod cwestiynau yn cael eu casglu.**

Bu'r bwrdd yn trafod y Warant Plismona Bro a'r broses o foderneiddio'r gweithlu. Gofynnodd y Comisiynydd am ddiweddariad am strwythurau'r timau plismona ac atal bro o fewn yr heddlu. Bu'r bwrdd yn trafod rhannu'r strwythurau hyn â chymunedau, a chynlluniau cyfathrebu â'r cyhoedd.

**Cam gweithredu: Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol i ddarparu cyflwyniad ar strwythur timau plismona ac atal bro i'r Comisiynydd.**

Bu'r bwrdd yn trafod y gwelliant mewn ffigurau ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac archwilio'r mathau hyn o droseddau a chynlluniau a oedd yn canolbwyntio ar broblemau a oedd yn mynd rhagddynt o fewn yr heddlu.

Soniodd y Comisiynydd am y ffaith ei fod wedi bod ar ymweliad â'r ddalfa yn ddiweddar gyda gwirfoddolwyr, lle'r oedd plant yn y ddalfa ond y gweithiwr Eiliadau Cyraeddadwy ddim ar gael oherwydd salwch.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gadarnhau'r weithdrefn pan nad yw Adferiad ar gael yn y ddalfa (Eiliadau Cyraeddadwy).**

## b) Perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol

Bu'r bwrdd yn ystyried y cyflwyniad ynghylch perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol. Rhoddodd Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau yr Heddlu yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ynghylch cofnodi troseddau o fewn yr heddlu.

O ran cynnydd yn nifer yr achosion o ddwyn oddi ar yr unigolyn, nodwyd bod y cofrestrydd yn cwblhau darn o waith yn y maes hwn. Dywedodd y cofrestrydd ei bod wedi adolygu 299 o gofnodion rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr y llynedd, a bod angen ailddosbarthu 29% o'r troseddau a gofnodwyd. Nodwyd y byddai adborth a chanllawiau yn cael eu darparu i swyddogion.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i rannu manylion adolygiad a gynhaliwyd ynghylch cofnodi dwyn oddi ar yr unigolyn â SCHTh.**

Holodd y Comisiynydd am y gostyngiad mewn dwyn o gerbydau yn y cyfnod o 12 mis. Dywedodd y cofrestrydd, yn dilyn y newid i Niche, y byddai angen iddynt edrych ymhellach ar y ffigurau i roi esboniad a nodi'r rheswm dros y gostyngiad.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i roi esboniad o'r gostyngiad o ran ffigurau troseddau dwyn o gerbydau.**

O ran ffigurau dwyn o gerbydau, dywedodd y cofrestrydd fod llawer o swyddogion yn cofnodi'r drosedd hon yn anghywir. Yn dilyn adolygiad o 114 o gofnodion, roedd angen ailddosbarthu 82% ohonynt. Nodwyd bod y cofrestrydd wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer cofnodi dwyn o gerbydau.

Holodd y Comisiynydd sut y byddai nifer y troseddau dwyn o gerbydau yn cael eu monitro yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gadarnhau sut y bydd niferoedd troseddau dwyn o gerbydau yn cael eu monitro.**

Bu'r bwrdd yn trafod pa hyfforddiant a oedd yn cael ei gynnig i swyddogion ynghylch cofnodi troseddau. Dywedodd y cofrestrydd eu bod yn rhoi mewnbwn i swyddogion newydd fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ystyried pa hyfforddiant a roddir i swyddogion ynghylch cofnodi troseddau.**

### 4. Unrhyw fater arall

Dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi cael cwestiwn gan aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu ynghylch cynnig gan y Llywodraeth a'r system cyfiawnder troseddol, sef, o gyfnod yn y dyfodol, na fyddai'r rhan fwyaf o achosion y bwriedir eu cyflwyno i'r llysoedd yn cael eu clywed gan reithgorau ond, yn hytrach, y byddent yn cael eu hystyried gan farnwr.
Roedd y cwestiwn yn gofyn am ymateb gan y Prif Gwnstabl. Dywedodd y Prif Gwnstabl fod ymateb wedi ei baratoi ar gyfer y Comisiynydd, ac y byddai yn cael ei rannu.

Gofynnodd y Comisiynydd i'r Prif Gwnstabl am gyflwyniad o'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen cadetiaid yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.

| Cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 27 Ionawr 2026 | I'w yrru yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| SPB 035 | Yr heddlu i rannu manylion adolygiad a gynhaliwyd ynghylch cofnodi dwyn oddi ar yr unigolyn â SCHTh. | Yr heddlu |
| SPB 036 | Yr heddlu i roi esboniad o'r gostyngiad o ran ffigurau troseddau dwyn o gerbydau. | Yr heddlu |
| SPB 037 | Yr heddlu i gadarnhau sut y bydd niferoedd troseddau dwyn o gerbydau yn cael eu monitro. | Yr heddlu |
| SPB 038 | Yr heddlu i ystyried pa hyfforddiant a roddir i swyddogion ynghylch cofnodi troseddau. | Yr heddlu |
| SPB 039 | Yr heddlu i rannu data / ffigurau trin galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu o ran y Gymraeg â SCHTh. | Yr heddlu |
| SPB 040 | Yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i shifftiau nos Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w darparu i'r CHTh maes o law. | Yr heddlu |

| | | |
|---|---|---|
| SPB 041 | SCHTh i drefnu cydymffurfio â'r Gymraeg fel pwnc i ganolbwyntio arno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona. | SCHTh |
| SPB 042 | Yr heddlu i ddarparu ffigurau siop-ladrad i SCHTh, yn dilyn cynllun gwella ar gyfer mynd i'r afael â siop-ladrad. | Yr heddlu |
| SPB 043 | Yr heddlu i ymgysylltu â chymdeithasau siopwyr annibynnol. | Yr heddlu |
| SPB 044 | Yr heddlu i rannu gwerthusiad o'r newidiadau gweithredol ym Mhowys. | Yr heddlu |
| SPB 045 | Adroddiad ar esblygiad prosesau i'w rannu â'r Comisiynydd drwy'r Bwrdd Plismona ar ôl y Pasg. | Yr heddlu |
| SPB 046 | Yr heddlu i gadarnhau ffigurau data llais y plentyn. | Yr heddlu |
| SPB 047 | Yr heddlu i gadarnhau'r weithdrefn pan nad yw Adferiad ar gael yn y ddalfa (Eiliadau Cyraeddadwy). | Yr heddlu |
| SPB 048 | Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol i ddarparu cyflwyniad ar strwythur timau plismona ac atal bro i'r Comisiynydd. | Yr heddlu |
| SPB 049 | Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth ynghylch y gostyngiad yn y datrysiad cymunedol o ran canlyniad 8. | Yr heddlu |
| SPB 050 | Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth ynghylch pa asiantaethau a oedd yn cael eu cynnwys o dan ganlyniad 20. | Yr heddlu |
| SPB 051 | Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth am gynnydd canlyniad 15 ynghylch troseddau meddu ar gyffuriau. | Yr heddlu |
| SPB 052 | Yr heddlu i roi sicrwydd ynghylch casglu data i'w rhannu â gwasanaethau a gomisiynwyd. | Yr heddlu |
| SPB 053 | SCHTh i fwydo ymholiadau atgyfeiriadau comisiynu i broses archwilio'r heddlu er mwyn sicrhau bod cwestiynau yn cael eu casglu. | SCHTh |

DIWEDD